



## Hinsawdd a Natur

Yma gallwch ddod o hyd i adnoddau i'ch helpu i feddwl am y cysylltiadau rhwng yr hinsawdd a natur ac ymuno ag eraill i alw am newid. Cynhyrchwyd yr adnodd hwn gan A Rocha UK.

Mae'r pecyn adnoddau hwn yn cynnwys:

- Cyflwyniad byr i'r mater.
- Cyngor ar gyfer cynnal gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd wedi'i ysbrydoli gan natur, gan gynnwys adran ar weddi a natur.
- Awgrymiadau ar gyfer ymrwymo i weithredu hirdymor.
- Ymgyrchoedd i gefnogi galw am ddyfodol mwy gwyrdd.
- Adnoddau pellach i gael rhagor o wybodaeth am yr Hinsawdd a Natur.

## Y cysylltiad rhwng Newid hinsawdd a Natur - a sut mae'n berthnasol i'r eglwysi

Dylai Cristnogion deimlo'n ddwfn am newid yn yr hinsawdd am ddau reswm. Yn gyntaf, mae effeithiau dinistriol newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n anghymesur ar y rhai mwyaf tlawd a bregus yn lleol ac yn fyd-eang: mae'n fater *cyfiawnder* enfawr. Yn ail, mae'r amgylchedd naturiol yn rhan o greadigaeth Duw y mae'n ei hoffi ac yn gorchymyn dynoliaeth i ofalu amdano. Mae diraddio amgylcheddol yn mynd yn groes i'r gorchymyn hwnnw. Felly, mae gan eglwysi alwad i ymwneud â phobl a'r amgylchedd ehangach - natur wyllt, cynefinoedd, 'systemau naturiol' sy'n ein cynnal, fel yr hinsawdd.

Mae'r Hinsawdd a Natur wedi cael eu trin ers tro byd fel materion cwbl ar wahân, ac eto mae'r cysylltiadau rhwng y ddau fater yn niferus ac yn tyfu. Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio fwyfwy ar fioamrywiaeth - meddylwch am danau mawr Awstralia yn 2019/20 a laddodd dros biliwn o anifeiliaid. Ar yr un pryd, gallai adfer cynefinoedd naturiol - fel coedwigoedd, corsydd mawn a glaswelltiroedd - a newid ein harferion ffermio dynnu llawer iawn o garbon deuocsid allan o'r atmosffer a'i gloi'n ddiogel i ffwrdd, gan ddarparu ateb sy'n seiliedig ar natur i newid yn yr hinsawdd.

Mae Llywodraeth y DU wedi dewis 'Atebion Seiliedig ar Natur' fel un o'i phum blaenoriaeth ar gyfer COP26. Gall yr Eglwys wneud cyfraniad ymarferol mawr i'r dull hwn. Mae gan yr Eglwys – yn enwadau ac eglwysi lleol - ddylanwad dros ardal sylweddol iawn o dir y gellir ei gwneud i weithio dros natur *a hinsawdd*, boed hynny drwy filoedd o eglwysi lleol yn rheoli eu mynwentydd er gwell neu'n ailfeddwl am y defnydd o ffermydd 1000 erw sy'n eiddo i gronfeydd pensiwn enwadol. Ynghyd â gweddill y gymdeithas sifil, mae gan yr Eglwys rôl i'w chwarae hefyd o ran helpu i ddwyn y llywodraeth i gyfrif am yr ymrwymadau y mae'n eu gwneud, megis ei haddewid diweddar i blannu 3 biliwn o goed yn y DU.

Darllenwch fwy am atebion sy'n seiliedig ar natur, eu manteision a'u risgiau, yn y [blog](#) hwn.

## Cynnal gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr Hinsawdd

Beth am ystyried gwneud i'ch gwasanaeth cyfan ganolbwyntio ar natur? Gallai eich gwasanaeth ddefnyddio thema dathlu, gan ddiolch i Dduw am y bywyd helaeth a welwn o'n cwmpas. Fel arall, efallai y bydd gan y gwasanaeth thema fwy galarus sy'n adlewyrchu'r niwed yr ydym wedi'i achosi i'r blaned.

### Cysylltu â natur drwy gynnal gwasanaeth awyr agored

Os yw'r tywydd yn sych ac yn gynnes, yna beth am ystyried cynnal gwasanaeth yn yr awyr agored. Does dim ffordd well o ystyried mawredd creadigaeth Duw na thrwy addoliad awyr agored. Ar adeg pan fo Covid 19 yn parhau i lenwi'r newyddion, mae gwasanaeth ynghanol natur yn ffordd ddiogel iawn o ymgymryd ag addoli ar y cyd (os caniateir hynny gan gyfyngiadau presennol y llywodraeth ar gynulladau awyr agored). Mae hefyd yn fan lle mae'n hawdd ailgysylltu â Christ drwy dymhorau'r cread.

Mae angen i wasanaeth awyr agored sydd â thema natur ystyried nifer o ffactorau, ar wahân i'r tywydd. Yn anochel mae'n haws colli sylw aelodau iau'r eglwys y tu allan ac i aelodau iau'r eglwys, bydd y demtasiwn i redeg o gwmpas yn llawer mwy nag wrth gyfarfod y tu mewn. Mae ffocws clir ar ieuenctid yn bwysig, gyda digon o weithgareddau i rai ifanc eu gwneud.

- Mae Faith Action for Nature wedi llunio pecynnau tymhorol i helpu cynulleidfaoedd i ymgysylltu â natur ac addoli gyda gwybodaeth am bethau fel fforio a phlannu ar gyfer bywyd gwyllt. Mae'r adnoddau hyn yn rhan o Eco Gynulleidfa yr Alban, fe gewch becyn yr Haf [yma](#), a'r pedwar pecyn tymhorol [yma](#) (Saesneg yn unig).
- Gellir dod o hyd i ganllawiau gan Eglwys Loegr ar sut i gynnal gwasanaeth awyr agored [yma](#).
- Mae canllaw Dathlu Tymor y Cread 2020 yn llawn adnoddau i eglwysi gynllunio gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y creadigaeth. Fe'i cewch yn Gymraeg, [yma](#).

### 'Eglwys y goedwig'

Mae eglwys y goedwig yn fynegiant newydd o draddodiad hŷn lle mae cymunedau'n mynd y tu hwnt i gael gwasanaeth arferol yn yr awyr agored i gymryd rhan gyda'r cread. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r cysyniad o Eglwys y Goedwig wedi tyfu a dod yn fwyfwy poblogaidd; lle mae aelodau'r eglwys yn canfod bod cysylltiad rheolaidd â natur yn gymorth mawr i addoli.

Rhagor o wybodaeth am wasanaethau Eglwys y Goedwig:

- 1) Cyfres o adnoddau ar gyfer creu gweithred addoli awyr agored ar ddull 'Eglwys y Goedwig' gan Roots [yma](#).
- 2) Mwd, llanast a dirgelwch: mae adnoddau ar gyfer addoli yn yr awyr agored gan gynnwys Eglwys y Goedwig i'w gweld [yma](#).

## Deunyddiau gwasanaeth Natur eraill:

- 1) **Natur ac Addoliad:** Mae gan lawer o emynau a chaneuon addoli thema natur ac maen nhw'n ffordd wych o gysylltu pobl â Duw drwy'r greadigaeth. Mae rhestr lawn o ganeuon addoli Saesneg gyda thema natur i'w gweld [yma](#). Rydym yn argymhell ein ffrindiau yn Resound Worship fel adnodd gwych ar gyfer addoli sy'n eich cysylltu â natur. Gwrandewch ar eu prosiect *Doxecology* [yma](#).
- 2) **Natur a Litwrgi:** Mae Green Christian wedi cynhyrchu rhestr ardderchog o litwrgi Saesneg ar thema natur, fe ddewch o hyd iddo [yma](#) ac mae amrywiaeth o adnoddau litwrgaidd yn Gymraeg i'w gweld ar wefan Cytûn [yma](#).
- 3) **Natur a Phregethu:** Pregethau a sgysiau yw un o'r ffyrdd gorau o ymgysylltu'n ddiwinyddol â gofal dros y greadigaeth a chysylltu cenhadaeth yr eglwys â stiwardiaeth y byd naturiol.

Dyma ychydig o lefydd i fynd i ddechrau arni:

- Mae EcoCongregation yr Iwerddon wedi cynhyrchu cyflwyniad i Eco Diwinyddiaeth sydd i'w weld [yma](#). Maent hefyd wedi llunio canllaw i safbwyntiau diwinyddol gwyrdd y gellir eu lawrlwytho [yma](#).
  - Mae A Rocha Rhyngwladol wedi llunio cronfa o sgysiau a phregethau â thema natur ar bynciau fel coedwigaeth, gwastraff a natur yn ystod Covid sydd ar gael [yma](#).
  - Yn olaf, mae gan wefan Sustainable Preaching restr enfawr o awgrymiadau pregeth gan amrywiaeth o siaradwyr. Gellir mynd atyn nhw [yma](#).
- 4) **Natur a'r Ysgrythur:** Mae nifer o ddarnau o'r ysgrythur y gellir eu defnyddio ar gyfer gwasanaeth ar thema natur. Mae man cychwyn da, sy'n cynnwys crynodeb ar-lein o'r prif adnodau ar gael [yma](#).

## Gweddi a'r Byd Naturiol

### 1) Natur yn y Salmu

Un o'r ffynonellau cyfoethocaf o weddïau dathlu'r Greadigaeth yw llyfr y Salmu. Mae'n ymddangos yn briodol iawn bod y Salmu'n cychwyn ac yn gorffen gyda thema dathlu ac wrth wraidd dathlu mae tywalltiad o ddiolchgarwch am y cyfan y mae'r Arglwydd wedi'i wneud.

Mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys:

Salm 1: a3

Salm 65: a9-13

Salm 8: a5-9

Salm 95: a4-5

Salm 19: a1-4

Salm 98: a7-9

Salm 23

Salm 104

Salm 24

Salmu 147-148

## 2) St Francis o Assisi - *Laudes Creaturarum* neu Ganticl y Creaduriaid

Ysgrifennwyd y weddi enwocaf sy'n dal hanfod angerdd Duw dros natur gan Sant Ffransis o Assisi (1181-1226OC). Gelwir hefyd yn *Laudes Creaturarum* neu Ganticl y Creaduriaid; mae'n sail i lawer o weddïau diweddarach a'r emyn mawr Popeth a wnaeth ein Duw a'n Rhi (*Caneuon Ffydd* 134). Daw'r cyfieithiad isod o Llyfr Gweddi Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru, fersiwn 2009 - [Gweddi Ddyddiol - Daily Prayer2009.pdf \(contentfiles.net\)](#) Rhif 54.

*Arglwydd dyrchafedig, hollalluog a da,  
I ti y bo'r mawl a'r gogoniant, yr anrhydedd a'r fendith*

*I ti, y Goruchaf, yn unig y perthynant  
ac nid oes neb teilwng i alw ar dy enw.*

*Boed mawl i ti Arglwydd: gyda'th holl greaduriaid,  
Yn enwedig y Brawd Haul:  
yr wyt yn goleuo trwyddo y dydd i ni.  
Y mae'n hardd a thanbaid yn ei fawr ysblander!  
Yn arwydd ohonot ti y Goruchaf.*

*Boed mawl i ti Arglwydd: am y Chwaer Lleud a'r sêr;  
Clir a drud/fawr a hyfryd: y ffurfiwyd hwy yn y ffurfafen.*

*Boed mawl i ti Arglwydd: am y Brawd Gwynt  
Ac am awyr a chwmwl ac wybren glir:  
a phob tywydd yr wyt ti trwyddynt  
yn cynnal dy greaduriaid.*

*Boed mawl i ti Arglwydd: am y Chwaer Dŵr,  
Sy'n ddefnyddiol a gwylaidd: yn werthfawr a phur.*

*Boed mawl i ti Arglwydd: am y Brawd Tân  
Y goleuir trwyddo y nos i ni: y mae'n hardd ac yn llawen, yn llawn cryfder a nerth.*

*Boed mawl i ti Arglwydd: am ein Chwaer y Fam Ddaear.  
Sy'n ein cynnal a'n rheoli: ac yn cynhyrchu ffrwythau amrywiol a blodau lliwgar a glaswellt.*

*Boed mawl i ti Arglwydd: gan bawb sy'n maddau am eu bod yn dy garu di  
A chan bawb sy'n dioddef gwendid a thrallod.*

*Gwyn fyd y sawl a ddwg y pethau hyn, er dy fwyn mewn tangnefedd:  
cânt goron gennyt ti y Goruchaf.*

*Boed mawl i ti Arglwydd: am ein Chwaer Marwolaeth y Corff,  
Na all neb byw ddianc rhagddi: gwae'r sawl sydd yn marw mewn pechod marwol.*

*Gwyn fyd y sawl a geir yn gwneud dy ewyllys sanctaidd di:  
oherwydd nis niweidir gan yr ail farwolaeth.*

*Molwch a bendithiwch yr Arglwydd  
diolchwch iddo:  
a gwasanaethwch ef mewn gostyngeddrwydd mawr*

### **3) Mwy o Adnoddau Gweddi**

#### **Gweddi dros ein Daear gan CAFOD**

Wedi'i gyhoeddi yng nghylchlythyr *Laudato Si* y Pab Francis, mae'r weddi hon yn canolbwyntio ar gyfiawnder a stiwardiaeth natur. Cewch hyd iddo yn Saesneg [yma](#).

#### **Gweddiâu ar Greu a Chymodi gan JPIT**

Mae Cyd-Dîm Materion Cyhoeddus Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr, yr Eglwys Fethodistaidd, Eglwys yr Alban, a'r URC wedi cynhyrchu dwy weddi ar greu:

- Myfyrdod ar gyfer Dydd Gweddi'r Byd dros Ofalu am Greu, sydd ar gael [yma](#).
- Dros Gysoni'r Amgylchedd, ar gael [yma](#).

#### **Archwilio Creu drwy Weddi gydag Eco Church**

Mae gan Eco Church adnodd sy'n arwain cynulleidfaoedd i feddwl am weddi a gofal am y greadigaeth. Gellir lawrlwytho hwn [yma](#).

#### **Ysgrifennwch eich gweddi eich hun o alarnad neu ddathliad**

Gyda newid yn yr hinsawdd yn rhan greiddiol o dranc cynefinoedd a rhywogaethau, mae cyfle hefyd i greu eich gweddiâu eich hun o ddathlu'r hyn sydd gennym a gweddi o alaru am yr hyn yr ydym yn ei golli neu sydd eisoes wedi'i golli.

### **Ymrwymo i weithredu tymor hir ar natur**

Mae llawer o sefydliadau wedi ymrwymo i ddiogelu ac adfer natur ac yn benderfynol bod effeithiau newid yn yr hinsawdd ar natur yn cael eu lliniaru. Dyma 4 cam syml ond effeithiol y gallwch eu cymryd i wneud gwahaniaeth i'r hinsawdd a natur:

#### **1) Ymunwch ag un o'r cynlluniau ffydd sy'n glasu**

Cofrestrwch ar gyfer un o'r cynlluniau glasu cenedlaethol sydd â chanllawiau ac adnoddau i'ch cefnogi i ddefnyddio'ch tir yn dda ar gyfer natur. Dewch o hyd i'r un sydd fwyaf perthnasol i'ch eglwys yma:

- Ar gyfer rhan fwyaf eglwysi Cymru a Lloegr rydym yn eich annog i ymuno â'r rhaglen [Eco Church](#).
- Ar gyfer cynulleidfaoedd Catholig, awgrymwyn ymuno â [Live Simply](#).

## 2) Cofrestrwch gyda Churches Count on Nature

Cofrestrwch gyda Churches Count on Nature, menter ar y cyd gan Caring for God's Acre, A Rocha UK, Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru.

Rhwng 5 a 13 Mehefin 2021 mae pobl leol yn dod at ei gilydd i ddarganfod y bywyd gwyllt yn eu mynwent eglwys leol, gan gofnodi'r rhywogaethau y maen nhw'n dod o hyd iddynt a chyfuno eu canlyniadau ag eraill fydd yn cael eu coladu ar y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN), cronfa ddata genedlaethol o fywyd gwyllt yn y DU.

Cofrestrwch [yma](#).

## 3) Ymuno â Sefydliad Cadwraeth

Ymunwch â sefydliad cadwraeth sy'n ymroddedig i arafu ac yn y pen draw gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth sy'n cael ei achosi gan newid yn yr hinsawdd.

**A Rocha UK** yw'r unig elusen Gadwraeth Gristnogol yn y DU sy'n gweithio i ddiogelu ac adfer y byd naturiol. Drwy ein rhaglenni rydym yn cefnogi unigolion, eglwysi, tirfeddianwyr ac arweinwyr sy'n Gristnogion i ofalu am greu a deall y cysylltiad hanfodol rhwng natur ac argyfwng yr hinsawdd. Dysgwch fwy am ein gwaith [yma](#).

**RSPB** (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar) yw'r elusen gadwraeth natur fwyaf yn y DU ac mae'n gweithio ar draws y pedair gwlad i ddiogelu ac adfer cynefinoedd naturiol. Dysgwch fwy am eu gwaith [yma](#).

## 4) Cael eich eglwys i gymryd rhan yn lleol gyda sefydliadau lleol sy'n ymwneud â natur

Gwirfoddolwch gydag elusen gadwraeth sefydledig yn eich ardal leol. Dyma awgrymiadau am rai sefydliadau:

Mae'r **Ymddiriedolaethau Natur** yn rhwydwaith cenedlaethol o sefydliadau ar lefel sirol sy'n gweithio i ddiogelu natur a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Cofrestrwch i wirfoddoli yn eich ardal leol [yma](#).

Mae **Cyfeillion y Ddaear** yn rhedeg grwpiau lleol sydd wedi ymrwymo i wella'r amgylchedd lleol. Dewch o hyd i'ch grŵp lleol [yma](#).

Mae **Coed Cadw** yn rhedeg menter sy'n annog pobl i blannu coed yn eu hardal leol. Darllenwch eu canllaw ar blannu coed a'r hinsawdd [yma](#).

## Ymuno â'r alwad am ddyfodol gwyrddach

Mae'r Hinsawdd a Natur ar yr agenda wleidyddol yn fwy nag erioed o'r blaen. Mae angen inni ei gwneud yn glir i lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel cymunedau ffydd fod y greadigaeth yn werthfawr ac yn werth ei gadw a'i ddiogelu.

Dyma rai camau ymgyrchu a awgrymir:

## 1) Llofnodi'r Datganiad Nawr yw'r Amser.

Rydyn ni'n gofyn i'r holl eglwysi sy'n cymryd rhan yn Sul yr Hinsawdd i lofnodi'r alwad gyffredin hon i'r llywodraeth mai dyma'r amser i arwain y DU tuag at ddyfodol iachach, gwyrddach a thecach. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys galwad i:

*'Diogelu, adfer ac ehangu ein mannau gwyrdd a gwyllt; caniatáu i natur ffynnu, cymryd carbon o'r awyr a hybu iechyd y genedl'.*

[Llofnodwch nawr](#) fel rhan o'ch gwasanaeth i ddangos eich cefnogaeth i hyn a chael eich cyfrif ymhlith y miloedd o eglwysi sydd eisoes wedi ei arwyddo fel rhan o Sul yr Hinsawdd.

## 2) Cefnogi un o'r ymgyrchoedd sy'n cael ei redeg gan yr RSPB.

Mae'r RSPB yn cynnal tair ymgyrch yn ymwneud â materion Goresgyn Newid yn yr Hinsawdd, ynni adnewyddadwy ac achub coedwigoedd trofannol. Archwiliwch yr ymgyrchoedd hyn yn fwy manwl [yma](#) ac ystyriwch gymryd rhan ynddyn nhw a'u cefnogi.

## Adnoddau pellach

### Llyfrau

Mae sawl llyfr defnyddiol sy'n mynd i'r afael â materion hinsawdd a natur o safbwynt ffydd:

Hayhoe, K a Farley, A. (2009) *A climate for change: Global warming facts for faith based decisions*. Faithwords, Hachette Book Group

Hodson, M. a Hodson, M. (2021) *A Christian Guide to Environmental Issues*

Kim, Sebastian a Draper, Jonathan. (2011) *Christianity and the renewal of nature*. Society for Promoting Christian Living (2011)

Pope Francis, *Laudato Si'* (Darllenwch ef [yma](#) a lawrlwythwch ganllaw astudio CAFOD ac adnoddau pellach [yma](#))

### Ymchwil ac Adroddiadau:

Adroddiad WWF *Wildlife on a Warming World*, darllenwch [yma](#).

Adran we WWF ar Atebion Seiliedig ar Natur, cewch hyd iddi [yma](#).

Adroddiad y Gymdeithas Frenhinol (2020) *Understanding the value and limits to nature based solutions to climate change*, ar gael [yma](#).

Ymchwil yr RSPB ar newid yn yr hinsawdd. Detholiad o adroddiadau ar draws ystod o faterion hinsawdd a chadwraeth, ar gael [yma](#).

*Adroddiad Cyflwr Natur Cymru 2019*, ar gael [yma](#).